CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 20 HYDREF 2016 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 20 OCTOBER 2016, |

Fe ‘ch gwysir i fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a cynhelir yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas , Parc Cathays, Caerdydd ar Dydd Iau, 20 Hydref 2016 am 4.30 pm i drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 14 Hydref 2016

---

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| **3** | **Cofnodion**<br><br>*Cadarnhau bod cofnodion cyfarfod 29 Medi 2016 yn gywir.* | | |
| **4** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.35 pm | 5 mun |
| **5** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau* | 4.40 pm | 5 mun |
| **6** | **Adroddiad Gwelliant Statudol Cyngor Dinas Caerdydd 2015/16** *(Tudalennau 1 - 104)*<br><br>*Cynnig Cabinet* | 4.45 pm | 30 mun |
| **7** | **Canllawiau Cynlluno Ategol** *(Tudalennau 105 - 176)*<br><br>*Cynnig Cabinet* | | |
| | (a) Tai Amlfeddiannaeth; a | 5.15 pm | 20 mun |
| | (b) Casglu a Chyfleusterau Storio Gwastraff | 5.35pm | 20 mun |
| **8** | **Adroddiadau Blynyddol Hyrwyddwr Aelodau** *(Tudalennau 177 - 184)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | 5.55 pm | 15 mun |
| **9** | **Datganiadau**<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.10 pm | 45 mun |

<table>
<tr><td colspan="4">Hysbysiadau Cynnig</td></tr>
<tr><td>10</td><td>Cynnig 1<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi:<ul><li>Bod nifer o wersylloedd teithwyr anawdurdodedig wedi’u sefydlu ym mharciau a mannau agored Cyngor Caerdydd.</li><li>Pan fo Cyngor Caerdydd yn cyflwyno hysbysiad troi allan i wersylloedd anawdurdodedig, mae’r hysbysiad yn gwahardd pobl rhag dychwelyd i fan agored neu barc y Cyngor y maent ynddo ar y pryd am dri mis yn unig.</li><li>Mae rhai gwersylloedd anawdurdodedig yn gadael sbwriel ac yn difrodi’r parc neu’r man agored y maent ynddo. Yna, mae’n rhaid glanhau a thrwsio hyn, fel arfer ar gost i drethdalwyr.</li></ul>Mae’r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:<ol><li>Archwilio’r hysbysiad cyfreithiol a gyflwynir i wersylloedd anawdurdodedig yng Nghaerdydd, gyda’r bwriad o ehangu'r hysbysiad i’w hatal rhag dychwelyd i unrhyw barc neu fan agored ym mherchnogaeth y Cyngor.</li><li>Ymchwilio a oes modd ehangu’r hysbysiad i atal dychwelyd am gyfnod o chwe mis.</li><li>Ystyried gweithdrefn i gymryd camau sifil i adfer colled y Cyngor.</li></ol>Cynigwyd gan: Y Cynghorydd Dianne Rees<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Adrian Robson</td><td>6.55 pm</td><td>30 mun</td></tr>
<tr><td>11</td><td>Cynnig 2<br><br>Mae’r Cyngor hwn yn:<ul><li>Nodi bod cyflogau wedi gostwng yn sylweddol ers 2010, tra bod prisiau'n dal i gynyddu, sydd wedi rhoi pwysau ariannol cynyddol ar lawer o deuluoedd sy'n gweithio'n galed yng Nghaerdydd.</li><li>Gwrthwynebu’r Torïaid yn ail-frandio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn Gyflog Byw Cenedlaethol, er mwyn ceisio twyllo pobl i gredu eu bod yn mynd i dderbyn codiad cyflog.</li></ul></td><td>7.25 pm</td><td>30 mun</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Dathlu bod y Cyngor Llafur hwn wedi talu Cyflog Byw gwirioneddol i'w holl gyflogeion ers mis Medi 2012, fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw. Ym mis Ebrill 2015, roeddem ymhlith y Cynghorau cyntaf yng Nghymru i dderbyn achrediad fel Cyflogwr Cyflog Byw, ac i annog pob contractwr sy'n gweithio i'r Cyngor i dalu cyflog byw i'w staff.<br>• Cydnabod bod llawer o gwmnïau a chyrff trydydd sector, o bob maint, ledled Caerdydd yn cefnogi eu staff drwy dalu Cyflog Byw Gwirioneddol.<br><br>Felly, rydym yn galw ar:<br><br>(1) y Cyngor hwn i hybu Caerdydd fel Dinas Cyflog Byw drwy annog a chefnogi busnesau ac elusennau sydd eisiau cymryd rhan yng nghynllun y Sefydliad Cyflog Byw; ac<br>(2) Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth Llafur Cymru i ymchwilio i ffyrdd o annog cyflogwyr eraill ledled y Ddinas i gytuno i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol.<br><br>Cynigwyd gan: Y Cynghorydd Darren Williams<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Heather Joyce | | |
| **12** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Derbyn cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 7.55 pm | 90 mun |
| **13** | **Materion Brys** | 9.25 pm | |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **14** | **Pwyllgor y Cyfansoddiad: Cynorthwy-ydd i Aelodau'r Cabinet - Disgrifiadau Rôl** *(Tudalennau 185 - 190)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | 9.30 pm | |
| **15** | **Aelodaeth y Pwyllgor** *(Tudalennau 191 - 192)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **16** | **Penodi i Gyrff Allanol** *(Tudalennau 193 - 198)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **17** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |

***This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg***